# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Cwynion a Gwella Gwasanaeth Chwarter 1 2025/26 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Llio Elenid Owen |
| **Swyddog perthnasol:** | Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15fed o Fedi 2026 |

## 1. Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Hynny er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn fodlon gyda'r perfformiad dros y cyfnodau dan sylw.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn am y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026 ynghyd â gwybodaeth gymharol am y blynyddoedd blaenorol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir

Cyflwynwyd "Trefn Cwynion a Gwella Gwasanaeth" y Cyngor yn 2015, wedi ei llunio dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac felly'n gyson gyda threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill.

Mabwysiadwyd y drefn gan y Cabinet gyda'r amcan o ddod â buddiant penodol i'r dinesydd drwy ganolbwyntio ar y datrysiad yn hytrach na'r broses yn ogystal a chaniatáu i swyddogion ymdrin yn gyflymach â chwynion.

Mae perchnogaeth ymateb i gwynion yn eistedd o fewn yr Adrannau unigol, ond mae swyddogaeth cydgordio a chynnig arweiniad wedi trosglwyddo i'r tîm Cyswllt Cwsmer, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, yn dilyn ymddiswyddiad y Swyddog Gwella Gwasanaeth.

Mae tudalen gwynion gwefan y Cyngor wedi'i diwygio i helpu cwsmeriaid i ddeall y gwahaniaeth rhwng cŵyn a methiant i ddarparu gwasanaeth. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddatblygu'r wybodaeth a'r canllawiau ymhellach.

Dylid nodi nad yw'r drefn hon yn berthnasol i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod trefn statudol ar wahân ar eu cyfer hwy. Mae'r ysgolion hefyd yn gweithredu eu trefniadau cwynion eu hunain.

### 3.2 Ymateb i Gwynion - Eglurhad o'r termau a ddefnyddir

#### 3.2.1 Datrys Cŵyn Anffurfiol

Achwynydd yn cysylltu'n anffurfiol gyda'r Tîm Cyswllt Cwsmer neu'r Gwasanaeth perthnasol i ddatrys y pryder.

#### 3.2.2 Ymchwiliad i Gŵyn Ffurfiol

Achwynydd yn cyflwyno cŵyn ffurfiol drwy'r drefn gwynion. Cynhelir ymchwiliad gan swyddog o fewn yr Adran berthnasol, sydd ar lefel ddigon uchel ac sy'n annibynnol o ffynhonnell y gŵyn.

#### 3.2.3 Cŵyn i'r Ombwdsmon

Gall achwynydd fynd â'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'n anfodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor.

Wedi edrych ar y gŵyn, gall yr Ombwdsmon benderfynu ar un o'r canlynol:

- *Dim Ymchwiliad* – ble mae'r Ombwdsmon yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater, ac yn teimlo nad oes angen ymchwilio ymhellach. Gall hefyd fod yn fater sydd tu hwnt i'r awdurdodaeth.
- *Cynamserol* - os yw'r Ombwdsmon o'r farn nad yw'r awdurdod wedi cael cyfle i ystyried y mater.
- *Cynnal ymchwiliad pellach* - ble mae'r Ombwdsmon yn teimlo bod angen ymchwilio ymhellach, i asesu sut mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater.
- *Setliad* – ble mae cytundeb gyda'r achwynydd, ac maent yn derbyn y datrysiad

## 4. Amlder yr Adroddiad

Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol am 2025/2026 i'r Cabinet ynghyd a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.

Mae data 'byw' ar gael i Benaethiaid Adran, Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Cabinet unrhyw adeg ar ofyn.

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r datblygiadau ar gyfer y cyfnod 01/04/2025 – 31/03/2026, gan ganolbwyntio ar Gwynion Ffurfiol Dilys yn ogystal a chwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon.


Nodir isod y ffigurau rhwng 01/04/2025 a 31/03/2026 -

- 69 Cwyn Ffurfiol Dilys rhwng 01/04/2025 a 31/03/2026
- 49 Cwyn Ombwdsmon rhwng 01/04/2025 a 31/03/2026
- 33 Dim Ymchwiliad; 8 Dim Ymchwiliad – Cynamserol; 7 – Setliad; 1 – wedi cau)


## 5. Data Meintiol

### 5.1 Nifer Cwynion:


**<u>2024/25 Chwarter 1-4</u>**




**<u>2025/26 Chwarter 1-4</u>**





### 5.2 Nifer Cwynion: Sefyllfa Dros Gyfnod ers 2020-21




| Natur y gŵyn | Ffurfiol | | Ombwdsmon | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran | Nifer | Nifer dyddiau | Nifer | Nifer dyddiau | Nifer | Nifer dyddiau |
| ⊟ | **2** | **22.5** | | | **2** | **22.5** |
| Priffyrdd | 2 | 22.5 | | | **2** | **22.5** |
| ⊟ **Addysg** | **2** | **56.0** | **5** | **14.6** | **7** | **26.4** |
| Addysg | 2 | 56.0 | 5 | 14.6 | **7** | **26.4** |
| ⊟ **Amgylchedd** | **17** | **19.4** | **20** | **3.6** | **37** | **10.8** |
| Cynllunio | 7 | 38.7 | 9 | 1.1 | **16** | **17.6** |
| Gwastraff | 5 | 3.4 | 1 | 2.0 | **6** | **3.2** |
| GYC | 2 | 5.0 | 5 | 3.4 | **7** | **3.9** |
| Llwybrau | | | 2 | 7.5 | **2** | **7.5** |
| Parcio a Gwaith Stryd | | | 1 | 27.0 | **1** | **27.0** |
| Rheolaeth Adeiladu | | | 1 | 0.0 | **1** | **0.0** |
| Trafnidiaeth | 2 | 10.5 | | | **2** | **10.5** |
| Trwyddedu | 1 | 10.0 | 1 | 0.0 | **2** | **5.0** |
| ⊟ **Cyllid** | **27** | **20.2** | **7** | **11.3** | **34** | **18.4** |
| Cyllid | 4 | 10.3 | 1 | 0.0 | **5** | **8.2** |
| Refeniw | 23 | 21.9 | 6 | 13.2 | **29** | **20.1** |
| ⊟ **Economi a Chymuned** | **3** | **16.3** | | | **3** | **16.3** |
| Economi a Chymuned | 1 | 6.0 | | | **1** | **6.0** |
| Hamdden | 1 | 14.0 | | | **1** | **14.0** |
| Morwrol a Pharciau | 1 | 29.0 | | | **1** | **29.0** |
| ⊟ **Gwasanaethau Corfforaethol** | **3** | **15.0** | **1** | **0.0** | **4** | **11.3** |
| Cofrestru | 1 | 38.0 | | | **1** | **38.0** |
| Cyswllt Cwsmer | 1 | 0.0 | 1 | 0.0 | **2** | **0.0** |
| Gwas Corff | 1 | 7.0 | | | **1** | **7.0** |
| ⊟ **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | **5** | **16.0** | **5** | **16.0** |
| Gwas Cymd | | | 5 | 16.0 | **5** | **16.0** |
| ⊟ **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | **1** | **46.0** | **6** | **4.0** | **7** | **10.0** |
| Gwas Cymd | | | 3 | 6.7 | **3** | **6.7** |
| Plant | 1 | 46.0 | 3 | 1.3 | **4** | **12.5** |
| ⊟ **Priffyrdd, Peirianneg a YGC** | **1** | **15.0** | | | **1** | **15.0** |
| Priffyrdd | 1 | 15.0 | | | **1** | **15.0** |
| ⊟ **Tai ac Eiddo** | **11** | **46.4** | **5** | **22.2** | **16** | **38.8** |
| **Cyfanswm** | **69** | **24.9** | **49** | **8.9** | **118** | **18.3** |

### 5.3 Amser Ymateb Dros Gyfnod ers 2020-21





## 6. Dadansoddiad o'r Cwynion

### Mesul Categori Blwyddyn 2024/25 Chwarter 1 – 4




### Mesul Categori Blwyddyn 2025/26 Chwarter 1 – 4



## Dadansoddiad fesul Adran

Yr ydym wedi adolygu’r dull blaenorol o gyflwyno gwybodaeth fanwl am gwynion oherwydd y risg y gall lefel uchel o fanylder arwain at adnabod neu ddatgelu achosion unigol yn anfwriadol. Er bod rhannu gwybodaeth yn gallu cefnogi gweithgareddau dysgu, monitro perfformiad a gwella gwasanaethau, mae’n bwysig sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir yn gymesur ac nad yw’n peryglu cyfrinachedd unigolion.

| Adran/Gwasanaeth | Anhapus gyda phenderfyniad | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Diffyg ymateb/ Gweithredu | Materion Iaith a Chydraddoldeb | Ombwdsmon (heb gategoreiddio) | Ymddygiad Swyddog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | 3 | 1 | | 3 | | 7 |
| Addysg | | 3 | 1 | | 3 | | 7 |
| **Amgylchedd** | | 4 | 13 | | 18 | | 35 |
| Cynllunio | | | 7 | | 9 | | 16 |
| Gwastraff | | 3 | 2 | | 1 | | 6 |
| GYC | | | 2 | | 4 | | 6 |
| Llwybrau | | | | | 2 | | 2 |
| Parcio a Gwaith Stryd | | | | | 1 | | 1 |
| Rheolaeth Adeiladu | | | | | | | |
| Trafnidiaeth | | | 2 | | | | 2 |
| Trwyddedu | | 1 | | | 1 | | 2 |
| **Cyllid** | 3 | 10 | 16 | | 7 | | 36 |
| Cyllid | | 1 | 3 | | 1 | | 5 |
| Refeniw | 3 | 9 | 14 | | 6 | | 32 |
| **Economi a Chymuned** | 2 | | | 1 | | | 3 |
| Economi a Chymuned | 1 | | | | | | 1 |
| Hamdden | 1 | | | | | | 1 |
| Morwrol a Pharciau | | | | 1 | | | 1 |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | | 1 | 2 | | 1 | | 4 |
| Cofrestru | | | 1 | | | | 1 |
| Cyswllt Cwsmer | | 1 | | | 1 | | 2 |
| Gwas Corff | | | 1 | | | | 1 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | | | 3 | | 3 |
| Gwas Cymd | | | | | 3 | | 3 |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | 1 | | 4 | | 5 |
| Gwas Cymd | | | | | 2 | | 2 |
| Plant | | | 1 | | 2 | | 3 |
| **Priffyrdd, Peirianneg a YGC** | | | 1 | | | | 1 |
| Priffyrdd | | | 1 | | | | 1 |
| **Tai ac Eiddo** | 3 | 3 | 8 | | 4 | 1 | 19 |
| Eiddo | | | 2 | | | | 2 |
| Tai | 3 | 3 | 6 | | 4 | 1 | 17 |
| **Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol** | | | 2 | | | | 2 |
| Cyfreithiol | | | 2 | | | | 2 |
| (gwag) | | | 2 | | | | 2 |
| Priffyrdd | | | 2 | | | | 2 |
| **Prif Gyfanswm** | **8** | **21** | **46** | **1** | **40** | **1** | **118** |

## 7. Prif Negeseuon

- Gwelir fod y nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi cynyddu a’r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi codi eto eleni o’i gymharu ar un cyfnod yn 2024/2025.
- Mae’r patrwm / tueddiad dros gyfnod hirach yn dangos bod nifer Cwynion Ffurfiol wedi gostwng yn raddol o 2018/2019 tan 2021/2022 pan fu cynnydd sylweddol, ond mae pethau i weld yn eithaf sefydlog.
- Gwelwyd newid mewn diwylliant gyda’r mwyafrif o Wasanaethau yn derbyn cwynion mewn ffordd fwy positif ac adeiladol er mwyn dysgu ohonynt, gyda’r amser ymateb yn gostwng yn ôl yn raddol.

## 8 Camau Nesaf

Y bwriad eleni yw cynnal adolygiad mewnol o'r ffordd rydym yn ymateb i gwynion, gan ddefnyddio arfer da'r Ombwdsmon fel sail i hyfforddi staff ac addasu ein systemau digidol. Bydd hyn yn ein galluogi i leihau'r amser mae'n ei gymryd i swyddogion ymateb i achwynwyr, ac i ddysgu gwersi er mwyn parhau i wella gwasanaethau.

Bydd yr hyfforddiant Gofal Cwsmer newydd i Reolwyr yn cyfeirio'n benodol at y drefn gwynion a'r disgwyliadau arnom i ymateb yn brydlon. Mae'r drefn gwynion yn rhan greiddiol o'r gwaith sy'n digwydd drwy'r Cynllun Gofal Cwsmer. Bydd y siarter, ynghyd â'r safonau ymateb a amlinellir yn y Cynllun newydd mewn perthynas ag ymateb i Aelodau, gohebiaeth gyffredinol a chwynion, yn darparu fframwaith ac arweiniad pendant i staff. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau nifer y cwynion am ddiffyg ymateb neu ddiffyg gweithredu yn y dyfodol, gan sicrhau bod staff wedi eu harfogi â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gadw at y gofynion ymateb.

Mae'r Wal Lwyddiannau yn dal i dyfu, a da iawn ydi gweld fod nifer helaeth o Ddiolchiadau/Canmoliaethau yn cael eu derbyn gan y Cyhoedd, gan Aelodau a gan Staff. Mae gweld gwerthfawrogiad tuag at eu gwaith, yn gymorth mawr i godi morâl staff, yn enwedig y rhai sydd ar y rheng flaen.

## 9 Sylwadau y Swyddogion Statudol

**Y Prif Swyddog Cyllid:**
**"**Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol"

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae'n rhan o'r drefn gwynion fod y Cabinet yn derbyn adroddiad ar drefniadau Cwynion a Gwella Gwasanaeth y Cyngor o safbwynt cynnal gwasanaethau o ansawdd. Mae gan y Pwyllgor Lywodraethu ac Archwilio swyddogaeth yn ystyried effeithlonrwydd y trefniadau yn unol a'u dyletswydd newydd. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".